

Iechyd a Diogelwch



Adroddiad Blynyddol 2014

<u>Mynegai</u>	<u>Tudalen</u>
Rhagarweiniad	2
Damweiniau a Digwyddiadau	3
Damweiniau a Achosodd Anafiadau	3
Damweiniau I Ffwrdd o Eiddo'r Brifysgol	3
Damweiniau a Achosodd Anafiadau I Ymwelwyr/Contractwyr	4
Damweiniau a Digwyddiadau Adroddadwy (RIDDOR)	4
Achosion Damweiniau	4
Damweiniau a Digwyddiadau Eraill a Damweiniau a fu Bron a Digwydd	5
Damweiniau a Digwyddiadau sy'n achosi Staff I Golli Amser o'u Gwaith	5
Absenoldeb Salwch Ymysg Staff	5
Cyfnodau o Absenoldeb Tymor Hir	5
Achosion Absenoldeb Salwch	6
Arolwg Iechyd a Phrofion	8
Larymau Tân yn Canu	8
Tanau	9
Camau Gorfodi ac Ymweliadau Statudol	9
Damweiniau Traffig Ffyrdd	9
Hawliadau Sifil (Cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch)	9
Hyfforddiant a Datblygu Staff	10
Monitro Safleoedd Contractwyr	10
Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	11
Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch Colegau / Adrannau	11
Archwiliadau, Adolygiadau ac Arolygiadau	12
Datblygu Polisiâu a Dogfennau	13
Coleg Bangor yn Tsieina	13
Ystadegau'r Wefan	13
Digwyddiadau Hybu Iechyd	13
Siopau Bwyd	14
Cefnogi'r Gymuned Ehangach: T ŷ Gobaith, Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru	15

RHAGARWEINIAD

Croeso i'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2014 sy'n cynnig data ystadegol am feysydd allweddol iechyd a diogelwch a chrynodeb o'r gweithgareddau yn ystod y flwyddyn.

HYSBYSIAD

Cwblhawyd ymchwiliad yr HSE i farwolaeth drasig cydweithiwr yn dilyn damwain yn y gweithle ar ddechrau 2015, heb unrhyw gamau yn cael eu cymryd yn erbyn y brifysgol.

Parhaodd ymchwiliad yr HSE am dros 18 mis ac roedd yn cynnwys nifer o gyfweiliadau ac asesiadau o systemau a threfniadau'r brifysgol. Diolchir i bawb a oedd yn gysylltiedig yn ystod yr amser anodd ac emosiynol hwn.

GOLWG GYFFREDINOL

Mewn ymgais i wella'r Adroddiad Blynyddol, mae adroddiadau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad eleni, yn cynnwys damweiniau a arweiniodd at golli amser a damweiniau mewn cerbydau.

Mae'n parhau i fod yn anodd cael data mesuradwy ar gyfer rhai agweddau ar berfformiad, yn unol â chais y Cyngor. Caiff y rhain eu hystyried ar y cyd ag adolygiad ehangach o feincnodi a dangosyddion perfformiad allweddol.

Yn ystod 2014 gwnaed nifer o archwiliadau ac adolygiadau â thema, bwriad pob un ohonynt oedd mesur cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion y brifysgol a nodi anghenion cefnogi. Rhagwelir y caiff amserlen archwilio ddiwygiedig ei llunio, ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol newydd.

Gwnaed adolygiad o asesiad risg iechyd a diogelwch corfforaethol y brifysgol. Fodd bynnag, gohiriwyd adolygu'r cynllun iechyd a diogelwch hyd nes y cafwyd canlyniad ymchwiliad yr HSE, a allai fod wedi cael effaith ddramatig ar ddatblygiad neu gyfeiriad y cynllun.

Mae gwaith yn parhau i gefnogi iechyd a lles staff, yn arbennig cefnogi'r staff gydag anghenion iechyd tymor hirach er mwyn eu helpu i ddychwelyd yn llwyddiannus i'r gwaith.

Cafwyd blwyddyn arall llawn digwyddiadau yn y calendr hybu iechyd, gyda nifer o wahanol ddigwyddiadau wedi eu targedu at grwpiau staff a'r brifysgol i gyd.

Mae cyfnod cadarnhaol o'n blaenau o ran iechyd galwedigaethol a chefnogi iechyd. Bydd penodiad yr ymarferydd iechyd galwedigaethol newydd a chynorthwywr iechyd a diogelwch sydd bellach yn arwain hybu iechyd, yn gweld syniadau newydd ac arloesol yn cael eu sefydlu i gefnogi, hybu ac annog iechyd a lles staff.

Mae'n amlwg o'r data 2014 bod angen rhagor o ymdrech i annog adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau ar draws y sefydliad. Adnewyddwyd y dull o adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau a chyflwynwyd ffurflen adrodd newydd am ddigwyddiadau na achosodd anafiadau yn 2014 i geisio annog adrodd am ddigwyddiadau. Gwelwyd cynnydd gyda'r drefn newydd yn nifer yr adroddiadau am achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a sefyllfaoedd a allai fod wedi bod yn beryglus.

Gwnaed llawer o waith yn ystod 2014 i adolygu hunan asesiadau iechyd a diogelwch y colegau ac adrannau, sy'n rhoi manylion am y trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn lleol. Mae'r hunan asesiad yn nodi'n glir beth sydd angen ei wneud i gydymffurfio â pholisïau a threfniadau iechyd a diogelwch perthnasol y brifysgol. Bydd cynnydd yn erbyn y camau y nodwyd yn cael ei asesu eto yn 2015.

DIOLCH ARBENNIG

Diolchir yn arbennig i Joe Patton, yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol blaenorol a ymddeolodd yn ddiweddar. Datblygodd y gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn ddirfawr o dan ei arweiniad a chaiff ei ddatblygu ymhellach gyda'r penodiad newydd rhagorol. Mae'r brifysgol yn parhau i fod yn ddim ond un o bedair prifysgol yn y DU sydd wedi cael achrediad sicrhau ansawdd gan Goleg Brenhinol y Meddygon.

Gareth W. Jones

Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch


DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

Cesglir cofnodion am ddamweiniau, digwyddiadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau peryglus yn ganolog lle maent yn cael eu harchwilio a'u hasesu i weld a oes angen gweithredu pellach. Caiff yr hyn sydd wedi achosi digwyddiadau eu monitor er mwyn ceisio eu hatal rhag digwydd eto ac i fonitro a nodi unrhyw dueddiadau.

DAMWEINIAU A ACHOSODD ANAFIADAU

Yn 2014, nifer y damweiniau i staff a myfyrwyr yr adroddwyd amdanynt a achosodd anafiadau o ganlyniad i'w gwaith neu astudiaethau yn y brifysgol oedd **47**¹. O'r cyfanswm hwn, roedd 36 o'r damweiniau yn ymwneud â staff ac 11 yn ymwneud â myfyrwyr.

Cyfanswm nifer y damweiniau a achosodd anafiadau




Yn 2014, roedd y gymhareb damweiniau a achosodd anafiadau i staff yn 15.2 o ddamweiniau i bob 1,000 o weithwyr², gostyngiad o'r 16.4 damwain i bob 1000 a gofnodwyd yn 2013. Adroddodd y sector addysg uwch 21.19 damwain i bob 1,000 o staff.

¹ Nid yw'n cynnwys is-gwmnïau

² Yn seiliedig ar 2375 aelod o staff yn ystod y flwyddyn


Damweiniau a achosodd anafiadau yn genedlaethol ac ym Mhrifysgol Bangor i bob 1000 o staff ar gyfartaledd (2005 - 2014)



05	06	07	08	09	10	11	12	13	14
25	30	23.8	27.5	32.2	30	27	27.4	16.4	15.2
36.9	34.9	33.3	30.7	30.7	31.7	30.7	28	24.36	21.19

Yn 2014, cafwyd 11 o ddamweiniau a achosodd anafiadau i fyfyrwyr o ganlyniad i'w hastudiaethau yn y brifysgol. Yn dangos cymhareb o 1 damwain i bob 1,000 o fyfyrwyr³.

Damweiniau a achosodd anafiadau yn genedlaethol ac ym Mhrifysgol Bangor i bob 1000 o fyfyrwyr ar gyfartaledd (2005 - 2014)



DAMWEINIAU I FFWRDD O EIDDO'R BRIFYSGOL

Roedd **4** o'r cyfanswm o 47 damwain a achosodd anafiadau yn cyfeirio at aelodau o staff yn gwneud gwaith cysylltiedig â'r brifysgol i ffwrdd o adeiladau'r brifysgol.

Roedd **2** o'r damweiniau o ganlyniad i lithro, baglu neu syrthio ar lwybr cyhoeddus/prifffordd, **1** yn

gysylltiedig â mân anaf o ganlyniad i ddamwain traffig ar y ffordd (ei gerbyd ei hun) a'r digwyddiad olaf yn gysylltiedig ag anaf a gafwyd yn dilyn damwain ar risiau symudol mewn maes awyr.

DAMWEINIAU A ACHOSODD ANAFIADAU I YMWELWYR/CONTRACTWYR

Yn 2014 derbyniwyd **9** adroddiad am ddamweiniau i ymwelwyr a chontractwyr ⁴. Roedd **7** damwain yn gysylltiedig â mân anafiadau, megis briwiau a chrafiadau. Roedd **1** yn gysylltiedig ag aelod o'r cyhoedd yn llithro ar lawr gwlyb wrth chwarae pêl-droed dan do a'r ddamwain olaf oedd heddwas yn cael anafiadau ar ôl syrthio i bibell gwasanaeth (telathrebu) ar dir llawn tyfiant ym Mharc y Coleg wrth ymchwilio i ddigwyddiad.

DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU ADRODDADWY (RIDDOR)

Yn ystod 2014 cafwyd **8** o ddamweiniau a digwyddiadau yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

O'r rhain, roedd **7** yn ymwneud â **Staff**: Roedd 4 oherwydd anafiadau dros 7 diwrnod lle nid oedd y staff yn gwneud gwaith 'arferol' ac roedd **3** yn ymwneud â thorri esgyrn; 1 arddwrn, 1 penelin ac 1 ysgwydd..

Roedd **5** o'r digwyddiadau adroddadwy o ganlyniad i lithro, faglu neu syrthio ac roedd **2** yn gysylltiedig â chodi a chario.

Roedd yr **1** digwyddiad adroddadwy arall yn ymwneud â myfyriwr oedd angen triniaeth ysbyty am archoll a achoswyd gan lafn cylllell llawfeddyg wrth wneud gwaith ymarferol yn y labordy.

Cafodd y sector addysg uwch gostyngiad bychan yn nifer y digwyddiadau adroddadwy i staff yn 2014, sef gostyngiad i **1.05/1000** o'r gymhareb staff **1.18 /1000** yn 2013. Cyfradd Prifysgol Bangor oedd **2.9/1000** yn 2014, o gymharu ag **1.2/1000** yn 2013.

Gostyngodd y gyfradd genedlaethol myfyrwyr i **0.08/1000** yn 2014, o **0.10** yn 2013. Mae cymhareb damweiniau adroddadwy i fyfyrwyr Bangor yn

cyfateb i **0.1** o ddigwyddiadau adroddadwy i bob 1000 o fyfyrwyr.


Yn hanesyddol mae cymarebau adroddadwy y brifysgol wedi amrywio'n fawr ac maent fel a ganlyn:

Flwyddyn	Staff	Myfyriwr	Ymwelydd	Cyfanswm
2014	7	1	0	8
2013	3	1	1	5
2012	0	2	0	2
2011	3	0	0	3
2010	3	3	1	7
2009	10	0	2	12
2008	5	1	1	7
2007	3	2	0	5
2006	3	6	0	9
2005	5	0	0	5
2004	7	0	1	8

ACHOSION Y DAMWEINIAU (POB DAMWAIN)

Roedd y rhan fwyaf o'r 47 damwain a arweiniodd at anaf yn 2014 yn ymwneud â naill ai digwyddiad codi a chario neu roeddent o ganlyniad i lithro, faglu neu syrthio.

Roedd yr 8 digwyddiad arall o ganlyniad i bobl yn cael eu taro gan rywbeth oedd yn symud neu'n disgyn, taro yn erbyn rhywbeth sefydlog / llonydd (3) neu'n dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol (4).



³ Yn seiliedig ar 10,569 Myfyrwyr yn ystod y flwyddyn

⁴ Damweiniau contractwr heb gynnwys ar safleoedd adeiladu corlannu

DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU ERAILL A DAMWEINIAU A FU BRON A DIGWYDD

Derbyniwyd 74 adroddiad arall am ddamweiniau/digwyddiadau yn 2014, maent wedi'u rhannu fel a ganlyn:


- 19 o ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd (*digwyddiadau a allai fod wedi arwain at ddamwain yn achosi anaf*)
- 10 ymarferion/sefyllfaoedd anniogel (*sefyllfaoedd neu weithgareddau a ystyrir yn beryglus*)
- 19 o anafiadau chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd)
- 15 Salwch
- 11 damwain a digwyddiad arall (*yn cynnwys anaf coginio yn y neuaddau, damweiniau wrth chwarae'n wirion a gwneud gweithgareddau cymdeithasol*)

Mae adroddiadau am 'ddamweiniau a digwyddiadau eraill' yn cyfeirio'n bennaf at ddigwyddiadau sy'n digwydd fel rhan o fywyd bob dydd ac a oedd yn cael eu hystyried i fod tu allan i reolaeth neu oruchwyliaeth y brifysgol. Er enghraifft, llosgi llaw ar ager o degell, bwrw bys troed yn erbyn coes gwely, disgyn ar ôl yfed gormod.

Sylwer: Ni roddir tabl neu graff ar gyfer yr adran hon o'r adroddiad blynyddol gan ei bod yn dal yn anodd nodi tueddiadau mewn damweiniau na achosodd anafiadau ac adroddiadau am ddamweiniau a fu bron â digwydd oherwydd nifer isel yr adroddiadau ac amrywiaeth o ran yr hyn sy'n achosi'r digwyddiadau.

DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU SY'N ACHOSI STAFF I GOLLI AMSER O'U GWAITH

Cafwyd cyfanswm o 8 digwyddiad gyda staff yn colli amser yn dilyn damwain yn y gwaith yn 2014. Dosbarthwyd pob digwyddiad colli amser fel naill ai damwain 'llithro, baglu neu syrthio' neu 'godi a chario'.



Mae cyfradd genedlaethol y sector addysg uwch (2014) am ddamweiniau sy'n arwain at absenoldeb 8+ diwrnod yn 0.78 digwyddiad i bob 1000 o staff. Cymhareb y brifysgol yw 1.6/1000 (hynny yw 4 digwyddiad i bob 2375 o staff).

ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF

Yn 2014, collwyd 8862 o ddiwrnodau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch a adroddwyd. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch staff blynyddol o oddeutu **4.98** diwrnod i bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn (4.3 diwrnod yn 2013). Cyfartaledd y sector addysg uwch yn genedlaethol oedd **5.8** diwrnod⁵.

Cyfradd Absenoldeb Salwch (cymharydd) (diwrnod fesul aelod o staff [FTE] y flwyddyn)

Prifysgol Bangor 2014	4.98
NHS Cymru 13/14	5.45
Sector AU UCEA 13/14	5.8
Gwasanaeth Sifil 2013	7.55

Roedd cyfradd absenoldeb salwch Prifysgol Bangor yn 2014 yn **4.98** diwrnod sy'n cyfateb i **1.9%** o amser gwaith⁶ yn cael ei golli oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2013 oedd **1.7%** ac **1.8%** yn 2012.


CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR

Yn 2014 roedd 112 achos (94 achos i bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn) o absenoldeb salwch tymor hir i bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn (diffinnir fel absenoldeb dros 20 diwrnod), mae hyn ychydig yn uwch na'r ffigur o 104 yn 2013.

⁵ Cyfartaledd a ddarperir gan UCEA Adroddiad Absenoldeb Salwch yn Addysg Uwch 2011/12; yn seiliedig ar 101 o ymatebwyr

⁶ Yn seiliedig ar gyfartaledd o 260.715 diwrnod gwaith y flwyddyn

Cyfanswm Cyfnod Absenoldeb, bob Digwyddiad, o Absenoldebau dros 20 diwrnod (Tystysgrifedig Meddygol) rhwng 2011 a 2014



Ers 2011 gwelwyd cynnydd o 16.6% yng nghyfanswm yr absenoldebau salwch a oedd yn fwy na 20 diwrnod gwaith.


ACHOSION ABSENOLDEB SALWCH

Os yw absenoldeb salwch yn llai na 7 diwrnod gall staff hunan-ddatgan y rheswm am yr absenoldeb neu'r achos. Mae'n rhaid cael tystysgrif feddygol (Nodyn Ffitrwydd) am gyfnodau o salwch sy'n 7 diwrnod neu fwy. Yn 2014 cadarnhawyd 79% (7,001 diwrnod gwaith, wedi addasu i weithiwr cyfwerth llawn-amser) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif feddygol, gyda'r gweddill 21% (1,861 diwrnod gwaith, wedi addasu i weithiwr cyfwerth llawn-amser) yn rhai hunan-ardystiedig.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod, yn gyfrifol am 63% (5,545 o ddiwrnodau gwaith o absenoldeb, wedi addasu i weithiwr cyfwerth llawn-amser) o'r holl ddiwrnodau o absenoldeb a adroddwyd yn 2014, ac yn dangos cynnydd o 7% ar y cyfanswm yn 2013 (56% o ddiwrnodau).


O'r 7,001 diwrnod o absenoldebau a ardystiwyd yn feddygol yn 2014, addasu i cyfwerth amser-llawn, roedd y dosbarthiad yn ôl categori fel a ganlyn:

Top 5 Rheswm Absenoldeb Ardystiedig Tymor Canolig (o dan 20 diwrnod i bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn) - Cyfanswm 1,456 diwrnod



Sylwer: Nid oes unrhyw gymhariaeth genedlaethol ar gyfer y grwpiau uchod o achosion gan eu bod yn cyfeirio at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion am absenoldeb hunan-ddatgan (hunan-ardystiedig).

Top 5 Rheswm Absenoldeb Ardystiedig Tymor Hir (dros 20 diwrnod i bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn) - Cyfanswm 5,545 diwrnod (Cyfradd Genedlaethol 2013/14 mewn Bracedi)



Sylwer: Nid yw'n glir a yw'r gyfradd genedlaethol am achosion yn ymwneud â'r galon/cylchrediad a chyhyrsgeryddol yn cynnwys cyfnodau adfer ar ôl triniaeth lawfeddygol, gan y cafodd dewis ar wahân am achos absenoldeb ei gynnwys gan UCEA yn 2014 ac mae'r grŵp hwnnw'n gyfrifol am 14.6% o'r holl achosion cenedlaethol am absenoldeb dros 20 diwrnod.

ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH 2014

Rhesymau Ardystiedig ar gyfer **Absenoldeb Salwch** dros 20 o Ddyddiadau (achosion) *

RHESWM DROS SALWCH	NIFER O DDIGWYDDIADAU			
	2011	2012	2013	2014
Cyhyrysgerbydol: Salwch cyffredinol (gan gynnwys arthritis, RSI, penelin tennis)	13	17	15	13
Cyhyrysgerbydol: Problemau cefn (gan gynnwys poen gwddf, gwaelod y cefn a sciatica)	3	6	2	5
Cyhyrysgerbydol: Anaf, Torasgwrn	13	14	5	12
Seicolegol & Anhwylderau System Nerfol (gan gynnwys problemau dibyniaeth, pryder ac iselder)	26	26	43	34
Problemau resbiradol	1	5	2	2
Tiwmor	9	4	2	5
Anhwylderau gwaed (e.e. anaemia)	Ø	Ø	1	1
Cardiofasgwlaidd	3	3	3	6
Clust, trwyn, gwddf (ENT), problemau deintyddol a geneuol	4	3	Ø	3
Problemau llygaid	1	2	2	1
Problemau endocrin/chwarennol (ee diabetes, thyroid, problemau metabolig)	2	1	2	1
Gastroberfeddol	3	8	14	13
Genitowrinol/Gynaecolegol	3	4	6	6
Afiechydon heintus	3	Ø	1	2
Cysylltiedig â beichiogrwydd	3	3	3	3
Anhwylderau croen	3	3	1	2
Sylweddau/ Alcohol	Ø	Ø	Ø	1
Cur pen	3	1	Ø	1
Achosion hysbys eraill heb eu dosbarthu mewn man arall	3	2	2	1
CYFANSWM:	96	102	104	112

*Diwygiedig Awst 2015

Gan ddefnyddio data gyda thystysgrif feddygol yn unig: nodir unwaith eto bod salwch seicolegol ac achosion absenoldeb cyhyrsgerbydol (yn cynnwys poenau cefn, cymalau a thorri esgyrn) yn gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg.

Sylw: Mae UCEA wedi gweithio gyda'r sector i weithredu fframwaith safonol i gofnodi a mesur absenoldebau. Mae hyn wedi arwain at gategorïau absenoldeb salwch sy'n fwy cyson ac wedi'u cofnodi'n well, gyda dim ond 13.1% wedi eu cofnodi fel absenoldebau rhesymau anhysbys ar draws sefydliadau, o gymharu â 22.4% y flwyddyn flaenorol.

AROLWG IECHYD A PHROFION


Mae dros 180 aelod staff yn cael arolwg iechyd i gadarnhau nad yw eu gwaith yn niweidio eu hiechyd. Rhoddir yr arolwg hwn i nifer o weithwyr llaw sy'n agored i offer dirgrynu a lefelau sŵn dwysedd uchel, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, cemegwyr a staff technegol, gweithwyr ar shifftiau, rhai sy'n trin a thrafod bwyd, gyrrwyr ar gontract ac arbenigwyr trin anifeiliaid.

Mae'r arolwg iechyd wedi ei deilwra i risgiau a pheryglon i staff sy'n hysbys, a byddent yn nodweddiadol yn cynnwys arolygiaeth resbiradol, sŵn neu ddirgrynu ac/neu asesiadau croen a phrofion llygaid.

LARYMAU TÂN YN CANU

Mae systemau canfod tân a larwm tân wedi'u gosod yn y rhan fwyaf o adeiladau'r brifysgol sy'n cynnwys oddeutu 7700 o synwryddion gwres neu fwg awtomatig.

Cyfanswm Achosion Larymau Tân yn Canu y Brifysgol




⁷ Yn seiliedig ar 3575 detector

Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2013/14 bu ychydig o ostyngiad yn nifer yr achosion pan ganodd y larymau tân yn adeiladau'r brifysgol o 129 (yn 2013) i 122. Daeth y Gwasanaeth Tân ac Achub allan 116 o weithiau.

Gellir rhannu'r cyfanswm hwn (122) i ddynodi'r nifer o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academiaidd/gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o stad y Brifysgol.

Larymau Tân yn canu fesul ystâd




— Neuaddau Preswyl
— Academiaidd/Gweinyddu

Yn 2013/14 bu gostyngiad eto yn nifer yr achosion o ganu larymau tân yn yr adeiladau academiaidd a gweinyddol o 59 i 42. Bu ychydig o gynnydd yn nifer yr achosion o ganu larymau tân yn y neuaddau preswyl o 70 i 80.

Yn ystod 2013/14 cafodd Prifysgol Bangor 11.7 achos o ganu larymau tân i bob 1000 o synwryddion⁷ yn yr adeiladau academiaidd a gweinyddol. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd yng nghyfradd yr achosion o ganu larymau tân yn yr ystâd breswyl o 30.4 i bob 1000 o ystafelloedd gwely i 34.7⁸.

⁸ Yn seiliedig ar 4136 detector a 2300 stafell wely

Larymau Tân yn Seinio fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely

Bangor
Sector

05	06	07	08	09	10	10/11	11/12	12/13	13/14
120	66	69	75	46	38	35	32.1	30.4	34.7
80.2	69	77	84	87	77	94.4	95.8		

TANAU

Yn 2013/2014 cafwyd **4** digwyddiad oherwydd coginio yn yr adeiladau preswyl.

O ganlyniad i feini prawf cofnodi'r sector, caiff y digwyddiadau hyn eu diffinio fel **tân bychan**, hynny yw, 'digwyddiad yn cynnwys mwg, gwres a fflamau yn achosi dim ond difrod cyfyngedig i offer neu eiddo'.

Cafwyd **1** digwyddiad arall o dân bychan yn yr adeilad academaidd/gweinyddol. Digwyddodd wrth osod system cyflenwad pŵer di-dor mawr newydd a ganfuwyd yn ddiweddarach ei fod yn ddiffygiol. Gwnaeth y tân ddiffodd ei hun.

CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU STATUDOL

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn ystod 2014.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Cwblhawyd ymchwiliad yr HSE i farwolaeth drasig cydweithiwr yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, heb unrhyw gamau yn cael eu cymryd yn erbyn y brifysgol. Ni chafwyd unrhyw ymweliadau eraill gan yr HSE yn ystod y flwyddyn.

Swyddfa Gartref

Cynhaliodd arolygydd y Swyddfa Gartref archwiliadau gyda rhybudd ac yn ddirybudd o'r holl gyfleusterau anifeiliaid trwyddedig. Ni nodwyd

unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i'r ymweliadau hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)

Gwnaed archwiliad gan arolygydd Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chydymffurfio â rheoliadau yn ymwneud â defnyddio deunyddiau ymbelydrol. Ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu.

DAMWEINIAU TRAFFIG FFYRDD

Yn 2014, gwnaed 1,203 o geisiadau am yswiriant unigol gan staff y brifysgol i logi cerbydau.

Nid oes unrhyw gofnod o unrhyw aelod staff o'r brifysgol yn cael anaf o ganlyniad i ddamwain wrth yrru cerbyd a logwyd, gydag 1 aelod staff yn cael mân anafiadau yn dilyn damwain traffig ar y ffordd wrth yrru ei gerbyd ei hun at ddibenion gwaith.

Digwyddiadau gyda char llog:

- 2 ddigwyddiad o ddifrod i gerbyd llog a achoswyd gan beidio â chodi'r brêc llaw.
- 4 digwyddiad lle cafodd cerbydau llog eu difrodi pan oeddent wedi'u parcio.
- 5 digwyddiad lle darodd cerbyd llog wrthrych neu gerbyd arall oedd wedi'i barcio.
- 2 ddamwain traffig ar y ffordd yn cynnwys cerbydau llog (1 yn destun hawliad trydydd parti am fân anaf oherwydd y ddamwain).

Cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol neu a brydlesir gan y Brifysgol

Roedd y brifysgol yn berchen/prydlesu 48 o gerbydau (anamaethyddol) yn ystod y flwyddyn. Gwnaed 1 cais am ddifrod o ganlyniad i ddigwyddiad lle gwnaeth cerbyd rollo i lawr bryn bychan, gan wrthdaro â rhwystr gan nad oedd y brêc llaw wedi ei godi.

HAWLIADAU SIFIL (CYSYLLTIEDIG AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn dilyn dim hawliad yn 2013 cafwyd 3 hawliad newydd o atebolrwydd cyhoeddus a 2 hawliad atebolrwydd cyflogwr. *Gweler yr adran uchod i gael manylion am yr hawliadau sifil traffig ffyrdd.*

Roedd y 2 hawliad atebolrwydd cyflogwr mewn perthynas â:

- Achosion o lithro/baglu ar bafin.

- Gorchudd draen wedi symud o'i le gan achosi i rywun syrthio.

Caiff y 3 hawliad atebolrwydd cyhoeddus eu crynhoi fel a ganlyn:

- Llithro, baglu ar lwybr troed sy'n eiddo i'r brifysgol.
- Anaf i swyddog yr heddlu a faglod i dwll archwilio ynghanol tyfiant wrth chwilio am unigolyn dan amheuaeth.
- Anaf wrth lithro yn ystod gêm bêl-droed dan do.

Derbyniwyd 3 hawliad atebolrwydd cyhoeddus arall hefyd yn 2014: Tynnwyd un hawliad yn ôl ar ôl derbyn mai ei fai ei hun ydoedd. Ar gyfer y 2 hawliad arall mae swyddogaeth y brifysgol fel "deiliad y ddyletswydd" yn cael ei herio, lle credir mai'r awdurdod lleol sydd â'r ddyletswydd mewn un achos a chontractwr adeiladu sydd â'r ddyletswydd yn yr ail achos.

Yn 2014 cafwyd 14 hawliad am yswiriant teithio i adfer costau meddygol a gafwyd wrth deithio dramor ar waith neu deithiau maes y brifysgol. Roedd y rhan fwyaf o'r swm (ariannol) am dri digwyddiad meddygol ar wahân mewn perthynas â myfyrwyr ar daith maes i Arizona. *Nid oedd dim un o'r digwyddiadau meddygol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch gwaith maes ei hun.*

HYFFORDDIANT A DATBLYGU STAFF

Yn ystod y flwyddyn cafodd 100 o gyrsiau eu darparu'n uniongyrchol neu eu hwyluso gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.

Flwyddyn	Nifer o Gyrsiau	Staff Ddaeth Iddynt
2014	100	579
2013	85	583
2012	106	719
2011	120	1125
2010	91	880

Dyma rai o'r hyfforddiant a roddwyd i staff:

- Cymorth Cyntaf
- Diffibrilio Argyfwng a CPR
- Diogelwch Trydanol : Profi PAT

- Asesiad Risg
- Diogelwch Tân
- Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE)
- Trin
- Iechyd Cyffredinol a Cynefino Diogelwch

Yn ogystal â'r cyrsiau y cyfeiriwyd atynt uchod, a gynigiwyd neu a hwyluswyd yn uniongyrchol drwy'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, darparwyd llawer o gyrsiau iechyd a diogelwch eraill yn lleol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft mae'r adran Ystadau a Chyfleusterau wedi darparu hyfforddiant mewn meysydd fel:

- Ymwybyddiaeth Asbestos (i staff a chontractwyr).
- Hyfforddiant Diogelwch Rheoli Safle.
- Sesiwn gynefino iechyd a diogelwch i dros 105 o gontractwyr allanol.
- Dulliau codi a chario.

Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi rhoi nifer fawr o sesiynau gwybodaeth a hyfforddi staff o dan y rhaglen 'Byddwch ar eich Gorau'. Amcan y rhaglen yw helpu i leihau pethau sy'n achosi straen a chynorthwyo staff i reoli llwythi gwaith, deall ymddygiad ac agweddau pobl yn well a datblygu eu ffordd o weithredu i gael y gorau ohonynt hwy ac eraill.



- Daeth dros 200 o staff i gyfres o 16 sgwrs / beitiau dysgu.
- Bu dwsinau o aelodau staff mewn cwrs ymwybyddiaeth ofalgar 8 wythnos.
- Bu 40 o staff mewn cyrsiau iechyd meddwl.

Mae nifer o golegau ac adrannau eraill yn darparu cyrsiau iechyd a diogelwch a hyfforddiant lleol. Ar hyn o bryd, nid yw'r holl hyfforddiant lleol wedi ei gofnodi ar y gronfa ddata ganolog ac o ganlyniad ni ddarperir yr wybodaeth hon yn yr adroddiad blynyddol.

MONITRO SAFLEOEDD CONTRACTWYR

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi manylion am ganfyddiadau archwiliadau monitro iechyd a diogelwch gwaith adeiladu a chynnal a chadw adeiladau yn y brifysgol, gan gontractwyr ac aelodau o'r tîm Ystadau a Chyfleusterau hefyd.

Yn 2014, gwnaed 223 o fonitro/archwilio safleoedd yn ffurfiol gan staff y brifysgol. Roedd hyn yn gynydd o 25% ar nifer yr archwiliadau yn 2013.



Yn 2014 bu dau achlysur lle cafodd contractau adeiladau eu hatal oherwydd pryderon am safonau a rheoliadau iechyd a diogelwch. Roedd y ddau ar safleoedd mewn lle caeddig lle nad oedd llawer o gysylltiad gyda staff a myfyrwyr y Brifysgol.

ASESIAD RISG IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL

Mae'r asesiad risg ar lefel brifysgol yn ystyried dros 50 o feysydd risg sylweddol a/neu drwy'r brifysgol, yn cynnwys rheoli asbestos a rheoli ymbelydredd ioneiddio. Gwneir crynodeb o'r risg posibl ym mhob maes, gan nodi'r rheolaethau presennol a'r camau gweithredu pellach.

Bwriad yr asesiadau yw nodi'r posibilrwydd o fod yn agored i risg, ystyried gofynion deddfwriaethol ac unrhyw ofnion ychwanegol gan awdurdodau

gorfodi a gwerthuso'n ansoddol yn erbyn lefel y rheolaeth bresennol. Er enghraifft:

Eitem / Pwnc	Polisi Presennol a'r Trefniadau	Lefel Gydnabyddedig o Reolaeth
Rheolaeth Asbestos	Da	Da
Archwilio & Arolygu	Cyfartalog	Cyfartalog
Trydanol - Sefydliad	Da	Da
Trydanol - Cludadwy	Da	Cyfartalog
Gwaith Maes ⁹	Gwael	Cyfartalog
Addasiad Genetig	Da	Da
Mamau Newydd a Beichiog	Da	Da
Llithro, baglu neu syrthio	Cyfartalog	Cyfartalog
Gweithgareddau dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr	Da	Da
Trafnidiaeth y Gweithle/Diogelwch Cerddwyr ¹⁰	Cyfartalog / Amrywiol	Cyfartalog / Da

Caiff y ddogfen ei diweddaru'n rheolaidd ac mae'r uchod yn rhoi ciplun (Rhagfyr 2014) o wahanol ganfyddiadau.

Rhagwelir yn y dyfodol y bydd adroddiad manylach yn yr Adroddiad Blynyddol am ganfyddiadau'r asesiad risg corfforaethol, ynghyd â meincnodau mwy cadarn.

Ar hyn o bryd nid oes gwerthoedd empeiraidd wedi eu clustnodi i bob maes pwnc/risg, a chyfeirir yn aml at ddadansoddiad o'r bylchau neu adroddiadau adolygu ar wahân.

ASESIADAU RISG IECHYD A DIOGELWCH COLEGAU / ADRANNAU

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r asesiadau risg cyffredinol y mae'n rhaid i bob coleg ac adran gwasanaeth eu cwblhau.

⁹ Yn dilyn arfarniad hwn mae Polisi a Gweithdrefnau newydd wedi cael eu cymeradwyo ac yn cael eu gweithredu

¹⁰ Mae meysydd penodol angen ystyriaeth a gwelliannau pellach

Mae'r ddogfen yn rhoi manylion am drefniadau rheoli iechyd a diogelwch penodol yn y colegau / adrannau er mwyn cydymffurfio â gofynion gwahanol bolisiau a threfniadau iechyd a diogelwch y brifysgol.

Gwnaed arolwg o asesiadau risg cyffredinol colegau ac adrannau gwasanaeth yn 2014. Cadarnhawyd bod pob un, ac eithrio un coleg, wedi cwblhau'r asesiad (95.6% wedi cwblhau). Roedd yr un eithriad yn parhau i weithredu asesiadau ar wahân i bob ysgol wahanol wrth gwblhau'r asesiad risg cyffredinol.

Aseswyd y rhan fwyaf o'r cyflwyniadau (5 coleg a 18 adran gwasanaeth) i nodi a oedd angen rhagor o wybodaeth neu eu gwella a chyhoeddwyd dogfen wedi'i diweddarau. Pwrpas hyn oedd nodi'n glir y gweithgareddau a'u trefniadau rheoli iechyd a diogelwch cysylltiedig ag unrhyw gamau pellach angenrheidiol.

Roedd y broses hefyd yn rhoi crynodeb i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch o unrhyw gamau heb eu gweithredu ar draws y colegau ac adrannau. Caiff yr asesiadau eu gwella a'u hystyried ymhellach yn ystod 2015 a byddant yn rhan o gynllunio penawdau i gael cefnogaeth colegau ac adrannau.

Bydd dadansoddiad mwy manwl o berfformiad ar gael mewn adroddiadau blynyddol at y dyfodol.

ARCHWILIADAU, ADOLYGIADAU AC AROLYGIADAU

Gwnaed yr archwiliadau a'r adolygiadau iechyd a diogelwch canlynol yn 2014:

- **Systemau Gwasgedd:** Gwnaed gwiriadau/archwiliadau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch systemau gwasgedd i sicrhau bod systemau gwasgedd perthnasol colegau/ adrannau wedi eu hysbysu i beiriannydd cymwys darparwr yswiriant y brifysgol sy'n gwneud 'archwiliadau ffurfiol' yn unol â'r rheoliadau.

Nodwyd oddeutu 150 o eitemau ychwanegol sydd bellach wedi eu hychwanegu at amserlen y peiriannydd cymwys i wneud archwiliadau ffurfiol yn y dyfodol.

Diweddarwyd gwybodaeth y brifysgol am systemau gwasgedd o ganlyniad i'r gwaith hwn a gwnaed adolygiad cynhwysfawr o'r polisi. Mabwysiadwyd y polisi diwygiedig ym mis Tachwedd 2014.

- **Undeb y Myfyrwyr (Clybiau a Chymdeithasau):**

Bu'r adolygiad yn asesu'r trefniadau sy'n berthnasol i sefydlu clybiau a chymdeithasau newydd, gan roi ystyriaeth benodol i'r clwb deifio uchel, clwb canwio, criw llwyfan, y gymdeithas fynydd a'r clwb rhwyfo.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd lle bo'n briodol i gyflwyno safonau yn erbyn canfyddiadau'r archwiliad o systemau rheoli iechyd a diogelwch Undeb y Myfyrwyr yn 2008 a wnaed gan yr HSE.

Yn fyr, dyma oedd canfyddiadau'r adolygiad:

- Roedd safon gyffredinol y trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn dda iawn ar draws pob maes a aseswyd
- Mae arweinyddiaeth drwy'r cydlynnydd datblygu clybiau a chymdeithasau wedi mynd â'r Undeb rhagddo, gyda phob un o'r pwyntiau allweddol a nodwyd yn Archwiliad 2008 wedi cael sylw a'r systemau wedi gwella.
- Roedd ansawdd rheolaeth y clybiau a'r cymdeithasau yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar bawb yn Undeb y Myfyrwyr, yn arbennig y cydlynnydd datblygu clybiau a chymdeithasau, y cyfarwyddwr, y swyddogion sabothol (Is-lywyddion) a'r clybiau a'r cymdeithasau a'u haelodau.

Gwnaed argymhellion yn yr Adroddiad Terfynol gyda'r bwriad o wella'r trefniadau presennol, ac roedd y rhan fwyaf o'r camau wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2014.

- **Adolygiad o Ddiogelwch Trydan:** Roedd adolygiad 2014 yn asesu'r cynnydd a wnaed ers Archwiliad 2008 ac yn ystyried sut oedd yn cydymffurfio â Safon Bolisi gyfredol y brifysgol am ddiogelwch offer trydanol cludadwy.

Yn 2008 dim ond 6 ysgol academiaidd a 3 adran oedd wedi gwneud nifer sylweddol o brofion/archwiliadau PAT o fewn y 18 mis

blaenorol. Roedd Adolygiad 2014 wedi tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol a wnaed ers hynny a gwelwyd mai dim ond nifer fechan o adrannau gwasanaeth oedd heb weithredu systemau cadarn i sicrhau cydymffurfio â pholisi'r brifysgol; ond roeddent i gyd yn adrannau risg isel.

Nododd yr Adolygiad bod rhai colegau heb weithredu systemau addas ar draws y coleg cyfan, gyda gwahanol safonau yn cael eu defnyddio ar draws y gwahanol rannau.

- **Adolygiad o Beryglon Biolegol:** Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau'r brifysgol i reoli asiantau biolegol peryglus yn gysylltiedig â gweithgareddau mewn labordai a rheoli cyfleusterau cadw anifeiliaid.

Fel gyda'r adolygiadau o beryglon biolegol blaenorol yn 2010 a 2013, roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol iawn gyda'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

DATBLYGU POLISIÂU A DOGFENNAU

Cafodd y polisiâu iechyd a diogelwch canlynol eu hadolygu, eu diweddarau a'u hailgyhoeddi yn 2014:

- Safon bolisi defnyddio cyfrifiaduron (offer sgriniau arddangos) yn ddiogel (diwygiedig).
- Safon bolisi defnyddio systemau gwasgedd yn ddiogel (diwygiedig).
- Safon bolisi deifio yn y gwaith (diwygiedig).

Gwaith Maes: Gwnaed cynnydd sylweddol i gwblhau'r Safon Bolisi a Threfniadau gwaith maes (diwygiedig) sydd, oherwydd cymhlethdod canllawiau cysylltiedig yr UCEA, wedi bod ar ffurf drafft ers peth amser. Roedd y gwaith yn cynnwys datblygu llawlyfrau yn cwmpasu'r prif fathau o waith maes; ymchwil cymdeithasol, teithiau undydd a gwaith maes hyfforddedig ac ymgynghori gyda cholegau perthnasol.

COLEG BANGOR YN TSIEINA

Yn 2014 lluniwyd papur proffil risg a oedd yn ystyried materion iechyd a diogelwch posibl a gofynion deddfwriaethol. Roedd y papur hwn yn chwilio am wybodaeth gan sefydliadau eraill y DU sy'n

gweithredu yn Tsieina ac yn ystyried deddfwriaeth iechyd a diogelwch sylfaenol (lleol).

Tynnir sylw at y ffaith mai partner y brifysgol, CSUFT, yw'r endid cyfreithiol yn ôl cyfraith Tsieinëeg, gyda'r dynodiad hwn wedi ei godio a'i lofnodi gan Bangor a CSUFT mewn cytundeb gweithredol.

Mae llawlyfr staff i staff y DU a fydd yn gweithio yng Ngholeg Bangor yn Tsieina wedi cael ei ddrafftio a chaiff ei gwblhau cyn y flwyddyn academaidd nesaf.

YSTADEGAU'R WEFAN

Yn ystod 2014, cafodd gwefan iechyd a diogelwch y Brifysgol **7,512** o ddefnyddwyr ar **11,823** o wahanol achlysuron, gyda **32,277** o dudalennau yn cael eu hagar. O'r rhain, roedd 62.1% wedi ymweld â'r wefan o'r blaen.

Yr adrannau mwyaf poblogaidd o'r wefan oedd asesiadau risg, ffurflenni adrodd a hawlio, teithio dramor, hyfforddiant a gwell iechyd.

DIGWYDDIADAU HYBU IECHYD

Trwy ddigwyddiadau a mentrau wedi eu haddasu a'u targedu'n arbennig mae'r brifysgol yn ceisio hybu a chefnogi iechyd a lles y staff a myfyrwyr. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd drwy gydol y flwyddyn. Dyma rai a gynhaliwyd yn 2014:

- Diwrnod Dim Smygu: Ymunodd "The Filter", cangen ieuenctid Ash Cymru â ni ar gyfer Diwrnod Dim Ysmygu yn 2014. Aeth nifer o bobl o amgylch y safle ar y dydd yn mynd at ysmygwyr a rhai nad oedd yn ysmegu i'w hannog i ymuno yn yr ymgyrch genedlaethol 'Rhoi'r gorau iddi yng Nghymru'. Yr hyn a oedd o ddiddordeb arbennig i lawer oedd gweld ysgyfaint du ysmygwr i ddangos i staff y myfyrwyr y niwed a achosir gan ysmegu i'r organau mewnol.





- **Wythnos Byw'n Iach:** Cynhaliwyd Wythnos Byw'n Iach arall i staff a myfyrwyr. Prif amcan yr Wythnos Byw'n Iach yw herio pobl i fabwysiadu ymddygiad iach o'r wybodaeth, sesiynau blasu a chefnogaeth sydd ar gael yn ystod yr wythnos.

Ymhlith y digwyddiadau a'r wybodaeth oedd gwefan Byw'n Iach, cynigion arbennig yng Nghanolfan Brailsford, sgwrs am ganser y fron ac ymwybyddiaeth o ganser y fron, sesiwn sylfaenol am ddulliau hunan amddiffyn, ffair Byw'n Iach gyda nifer o stondinau, sesiynau galw heibio ymwybyddiaeth ofalgar, sesiynau rhedeg a cherdded amser cinio a noson gwis Byw'n Iach.



Roedd yr adborth a gafwyd yn ystod yr wythnos yn dangos bod pobl wedi rhoi croeso arbennig i'r sesiynau diogelwch personol a roddwyd gan aelod o'r tîm diogelwch.

- **Project Byw'n Dda, Gweithio'n Dda Llywodraeth Cymru:** Cafodd nifer o arweinwyr staff a myfyrwyr brwdfrydig eu recriwtio ar ddiwedd y

flwyddyn i weithio ar broiect Llywodraeth Cymru o'r enw Byw'n Dda, Gweithio'n Dda. Fel rhan o'r project hwn bu'r staff yn cymryd rhan yn her teithio'r brifysgol ym mis Hydref a Thachwedd yn erbyn 4 prifysgol arall. Cofnodwyd 2,865 o deithiau yn ystod y cyfnod hwn, a oedd yn gyfystyr â 19,542 o filltiroedd gan y 123 o gyfranogwyr. Llwyddodd yr ymdrech hon i'n rhoi ar frig y bwrdd arweinwyr yng Nghymru, gan ennill yn erbyn prifysgolion de Cymru!

- **Mentrau Iechyd Eraill:** Yn ogystal, cynhaliwyd y dulliau hybu iechyd canlynol yn 2014.
 - Ionawr Sych: Roedd yr ymgyrch poster yn herio staff i ymwrthod ag alcohol drwy gydol mis Ionawr er mwyn i'w cyrff gael gorffwys os bu goryfed yn ystod gŵyl y Nadolig.
 - Her Colli Pwysau: Cefnogwyd y digwyddiad 8 wythnos hwn gan gyflwyniadau, newyddlenni a chyfle i ymuno mewn teithiau cerdded hanner awr yn ystod amser cinio i losgi'r calorïau.
 - Diwrnod Llais y Byd: Ymgyrch i dynnu sylw at ba mor bwysig yw gofalu am ein ffordd bwysicaf o gyfathrebu sef y llais. Wedi'i anelu'n arbennig at staff darlithio.
 - Diogelwch yn yr haul, rhannu ceir, cyfleoedd i feicio a cherdded: Gyda'r diwrnodau'n hirach a'r gwyliau haf yn dechrau, anfonwyd nodyn i staff yn eu hatgoffa am y pwysigrwydd o Fitamin D a bod yn ddiogel yn yr haf, ynghyd â hybu digwyddiadau cerdded a seiclo lleol a gwasanaeth rhannu ceir y brifysgol.

SIOPAU BWYD

Mae'n bleser gennym ddweud bod holl fannau arlwyo a pharatoi bwyd cofrestredig y brifysgol, yn cynnwys y rhai sydd o fewn cwmnïau atodol, wedi cael sgôr hylendid bwyd o 5 seren.



CEFNOGI'R GYMUNED EHANGACH



Ers nifer o flynyddoedd mae'r brifysgol wedi cefnogi'r elusen Tŷ Gobaith sy'n darparu seibiant, gofal lliniarol a nyrsio terfynol i blant y mae hyd eu bywyd yn debygol o fod yn fyr. Ym

mis Mai 2014, cyflwynwyd £4,000.27 i'r elusen, gan ddod â'r cyfanswm sydd wedi ei godi hyd yma gan staff a myfyrwyr y brifysgol i dros £44,000.



Yn ystod 2014 bu Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru a hwylusir gan yr Adran yn trefnu 10 o sgysiau am

amrywiaeth o bynciau cysylltiedig ag iechyd a diogelwch i fusnesau lleol yn y sector preifat a chyhoeddus. Hefyd, derbyniodd y Grŵp gydnabyddiaeth unwaith eto gan y 'Safety Groups UK' gan ennill Gwobr Arian am gefnogi sefydliadau lleol ac iechyd a diogelwch yn gyffredinol.

Diwedd.